Paul Chapman
Cyhoeddwyd yn *Hindsight*, Ebrill 2008

# Ffyniant a dirwasgiad ym Mhrydain yn yr 1930au

*Mae'r 1930au yn aml yn cael eu cofio fel cyfnod o adfyd economaidd ac anobaith cymdeithasol. Fe wnaeth effeithiau gwael cwymp y farchnad stoc yn yr Unol Daleithiau yn 1929 ymestyn o amgylch y byd gyda chanlyniadau difrifol. Gwaethygodd hyn y sefyllfa economaidd ym Mhrydain, oedd eisoes yn anodd, gan ragflaenu degawd a ddifethwyd gan ddiweithdra ar raddfa eang a'r dioddefaint cymdeithasol a ddaeth yn sgil hynny. Nodweddir y cyfnod gan ddelweddau megis yr un o orymdeithwyr Jarrow yn Ffynhonnell A, ond eto, ar yr un pryd, cafwyd heb os gynnydd economaidd a moderneiddio. Roedd hon yn ddegawd pan welwyd rhaniad mawr rhwng bywydau pobl mewn gwahanol ranbarthau o Brydain.*

**Ffynhonnell A**

Gorymdeithwyr Jarrow yn anelu at Lundain yn 1936

**1**

*Astudiwch Ffynhonnell A. Rhestrwch yr anawsterau ymarferol y gallai dynion di-waith eu hwynebu wrth orymdeithio o Jarrow (yng ngogledd-ddwyrain Lloegr) i Lundain yn 1936.*




© 2002 Topham/AP

## Prydain yn Ffynnu

Yn y 1930au gwelwyd adeiladu tai newydd ar raddfa fawr mewn ystadau newydd braf, yn wahanol i slymiau dosbarth gweithiol Oes Fictoria ac Edward. Cafodd dros 3 miliwn o gartrefi newydd eu hadeiladu ledled y wlad, ac erbyn 1939 yr oedd yna, yn ôl y sôn, ormod o dai ar gael. Yn ystod y ddegawd gwelwyd yn ymddangos, ar raddfa eang, nwyddau newydd i ddefnyddwyr megis sugnwyr llwch, haearn smwddio trydan, radios ac oergellau, yn ogystal â mwy o adloniant ar gael yn sgil twf y diwydiant ffilm. Roedd teuluoedd yn fwy tebygol o allu mynd ar wyliau blynyddol i lan y môr. Cododd safonau byw yn gyffredinol.




Lord Price Collection

**Ffynhonnell B**

Radios newydd i'r sawl sy'n gallu eu fforddio.

**2**

*Astudiwch Ffynonellau B ac C. Pa mor ddefnyddiol yw hysbysebion papur newydd i'r hanesydd sy'n ceisio ymchwilio i'r modd yr oedd pobl gyffredin yn byw eu bywydau ym Mhrydain yn yr 1930au?*

Er bod cyflogau wedi disgyn rhwng 1929 ac 1934, fe gwympodd prisiau yn gynt.

Roedd pobl yn byw'n hirach, ac roedden nhw'n fwy iach. Cafwyd gostyngiad yn y gyfradd farwolaeth, yn enwedig ymhlith plant. Roedd y dynion y galwyd arnynt i ymladd yn yr Ail Ryfel Byd, ar gyfartaledd, yn fwy ffit na'r rhai gafodd eu consgriptio yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Fodd bynnag, nid oedd y gwelliannau hyn ym mywydau llawer o bobl wedi'u rhannu'n gyfartal ledled y wlad.

## Pam roedd bywyd mor galed i lawer o bobl?

Roedd llawer o bobl y dosbarth gweithiol ym Mhrydain yn byw bywydau ansicr ar y gorau. Dangosodd gwaith ymchwiliol diwygwyr cymdeithasol fel Seebohm Rowntree cyn y Rhyfel Mawr sut yr oedd teuluoedd yn symud yn aml i mewn ac allan o dlodi ar wahanol gyfnodau yn eu hanes, gan ddibynnu ar ddatblygiad eu plant a'u hiechyd eu hunain. Fe wnaethant egluro sut na châi gweithwyr byth y cyfle i gynilo rhag ofn y byddent yn wynebu problemau yn y dyfodol. Roedd diweithdra yn gwthio teuluoedd islaw y llinell dlodi, ac arweiniodd hynny at gyflwyno lefel sylfaenol o fudd-dâl diweithdra gan y llywodraeth Ryddfrydol cyn y rhyfel.

### Ffynhonnell Ch

Gwelliannau i safon byw yn yr 1930au:

*Eithriad bellach oedd y wraig oedd wedi heneiddio cyn ei hamser. Roedd plant yn llai niferus, yn iachach ac yn llai o drafferth; cyflwynwyd dyfeisiau oedd yn arbed gwaith, yn enwedig o safbwynt golchi, glanhau a choginio – arbedwyd amser sylweddol yn sgil cyflwyno cyllyll a ffyrc di-staen; dim ond un o blith cant o ddyfeisiau tebyg oedd hyn. Roedd hysbysebu yn gwneud siopa yn symlach. Daeth gwragedd tŷ i ddibynnu ar frandiau penodol o nwyddau; roedd bwyd yn cael ei werthu yn y cyflwr agosaf posibl at fod yn barod i'w roi ar y bwrdd; cafodd y broses gymhleth o wneud cwstard a phwdinau eraill ei lleihau yn sgil defnyddio powdrau oedd eisoes wedi'u paratoi. Dechreuodd grawnfwyd a llaeth herio cig moch ac wyau mewn cartrefi llewyrchus, a bara a margarîn y tlawd.*

O R.Graves ac A.Hodge, *The Long Weekend*, 1950.

Cafodd syniadau newydd i ddatrys y broblem eu cynnig gan yr economegydd John Maynard Keynes a'u mabwysiadu i ryw raddau gan yr wrthblaid wleidyddol (y Blaid Ryddfrydol dan Lloyd George a'r Blaid Lafur oedd wedi gwahanu oddi wrth ei harweinydd, Ramsay MacDonald), ond cawsant eu hanwybyddu i raddau helaeth gan y Llywodraeth Genedlaethol (gweler Ffynonellau Dd, E ac F). Roedd y mesurau a gymerwyd gan y llywodraeth i geisio gwella'r economi, i raddau helaeth, yn aneffeithiol. Codwyd tollau ar fewnforion tramor i annog pobl i brynu nwyddau a gynhyrchwyd ym Mhrydain a rhoddwyd anogaeth ariannol i 'ardaloedd arbennig' i greu diwydiannau newydd. Fodd bynnag, dim ond wedi i'r llywodraeth

### Ffynhonnell C

Cafodd nwyddau cyfleus eu cyflwyno yn yr 1930au




Mary Evans Picture Library

Roedd yna lefel sylweddol o ddiweithdra ym Mhrydain trwy gydol yr 1920au, ond fe gynyddodd ar ôl 1929. Ni fu'r budd-daliadau i'r sawl oedd yn ddi-waith erioed yn hael, ond cawsant eu torri'n sylweddol gan y Llywodraeth Genedlaethol yn 1931 a chyflwynwyd prawf modd. Roedd hyn yn golygu, ar aelwydydd lle roedd aelodau eraill o'r teulu yn ennill arian, y byddai'r dyn di-waith yn cael llai o fudd-dâl.

Un o nodweddion amlycaf y dirwasgiad oedd y graddau yr oedd diweithdra wedi'i grynhoi mewn ardaloedd penodol o Brydain, yn enwedig yn yr Alban, Cymru, Gogledd Iwerddon a gogledd Lloegr. Dyma'r ardaloedd lle'r oedd lle blaenllaw i'r hen ddiwydiannau trwm, oedd bellach ar drai. Golygai hyn fod yr effeithiau yn llawer gwaeth yn yr ardaloedd hyn. Roedd y rhan fwyaf o'r diwydiannau defnyddwyr newydd a'r gwaith codi tai yn ne-ddwyrain Lloegr (gweler Ffynhonnell D).

### Ffynhonnell D


**Diweithdra fel canran o weithwyr wedi'u hyswirio yn rhanbarthau Prydain, 1932 ac 1937**

| Rhanbarth | 1932 | 1937 |
|---|---|---|
| Llundain a De-ddwyrain Lloegr | 13.7 | 6.4 |
| De-orllewin Lloegr | 17.1 | 7.8 |
| Canolbarth Lloegr | 20.1 | 7.2 |
| Gogledd Lloegr | 27.1 | 13.8 |
| Cymru | 36.5 | 22.3 |
| Yr Alban | 27.7 | 15.9 |
| Gogledd Iwerddon | 27.2 | 23.6 |

*O J.Stevenson ac C.Cook,* The Slump: Society and Politics during the Depression, *1977.*

### Ffynhonnell Dd

Cartŵn gan David Low, a gyhoeddwyd yn yr *Evening Standard*, 17 Ebrill 1934. Mae Low yn cymharu'r gweithiwr di-waith â byd perffaith gwleidyddiaeth, lle mae Neville Chamberlain yn siarad â Thŷ'r Cyffredin, tra mae Ramsay MacDonald a Stanley Baldwin yn ei wylio'n llawn edmygedd.




David Low, Evening Standard, 17 Ebrill 1934
British Cartoon Archive, Prifysgol Kent

**3**

*Astudiwch Ffynhonnell Dd. Beth, yn eich barn chi, fyddai aelodau'r llywodraeth yn ei feddwl o'r modd y maent yn cael eu portreadu yn y cartŵn hwn?*

lansio ei hymgyrch i ailarfogi yn y cyfnod cyn yr Ail Ryfel Byd y gwelwyd adferiad sylweddol yn yr ardaloedd a ddioddefodd waethaf.

## Beth oedd effeithiau cymdeithasol diweithdra?

Roedd teuluoedd lle roedd y prif enillydd cyflog yn ddi-waith yn byw mewn tlodi. Dangosodd arolwg yn Stockton-on-Tees yn yr 1930au bod eu hincwm ar gyfartaledd yn 29 swllt 2 ½ ceiniog, sydd yn sylweddol is na 'llinell dlodi' Rowntree wedi'i diweddaru ar gyfer teulu o bump, sef 43 swllt 6 cheiniog (heb gynnwys rhent). Canfu Rowntree fod 31% o'r aelwydydd dosbarth gweithiol yn Efrog islaw ei linell dlodi yn 1935/36.

Byddai'r di-waith a'u partneriaid yn ymdrechu yn ddyddiol i ddarparu digon o fwyd i'w teuluoedd ei fwyta. Byddai unrhyw fwyd oedd ganddynt o safon isel a byddai diffyg amrywiaeth. Byddent fel arfer mewn dyled, yn aml yn methu â thalu'r rhent am eu llety ac mewn perygl o gael eu troi allan o'u cartrefi. Byddai'r cartrefi hynny yn ddieithriad yn orlawn, gyda theuluoedd cyfan yn aml yn byw mewn dwy ystafell yn unig, gyda dŵr (oer yn unig) yn dod o dap y tu allan, dim ystafell ymolchi, a thŷ bach i bawb ei rannu yn yr iard y tu allan. Roedd y tai yma yn aml yn llaith ac fel arfer mewn cyflwr gwael (gweler Ffynhonnell G). Doedd dim arian i'w sbario ar gyfer unrhyw beth ac eithrio hanfodion sylfaenol bywyd, a byddai unrhyw beth a gâi ei wario ar ddiod, hapchwarae, y sinema neu unrhyw foeth ar draul bwyd, dillad neu dalu'r rhent (gweler Ffynhonnell Ng).

**4**

*Darllenwch Ffynhonnell E. Yn eich geiriau eich hun, esboniwch sut y gallai'r ateb i ddiweithdra a gyflwynwyd gan Keynes weithio. Pam, yn eich barn chi, na wnaeth y llywodraeth dderbyn ei syniadau?*

### Ffynhonnell E

Roedd John Maynard Keynes yn academydd yng Nghaergrawnt ac yn Rhyddfrydwr, a'i syniadau yn sail i bolisïau David Lloyd George yn etholiad 1929 ac wedi hynny. Daw'r dyfyniad isod o adroddiad lleiafrifol, ac ynddo mae Keynes yn anghytuno â chanfyddiadau Pwyllgor Macmillan yn 1930 (grŵp a sefydlwyd i gynghori'r llywodraeth ar bolisi economaidd).

*Byddai buddsoddiad cyfalaf newydd gartref yn creu swyddi ychwanegol. Yn ogystal â'r dynion a gyflogir yn uniongyrchol a'r dynion a fyddai'n gweithio i greu a chludo'r defnyddiau angenrheidiol, bydd set arall o ddynion yn cael eu rhoi ar waith i gyflenwi'r anghenion fyddai'n cael eu creu gan rym prynu ychwanegol y set gyntaf o ddynion.*

O S.Newman, *Britain in the Twentieth Century World, 1918–1990*, 1991.

**5**

*Gwnewch rywfaint o waith ymchwil i archwilio bywyd Seebohm Rowntree. Crynhowch eich canfyddiadau mewn ffeil ffeithiau. Beth oedd ei gyfraniad i'r frwydr yn erbyn tlodi ym Mhrydain?*

**6**

*Darllenwch Ffynhonnell F. I ba raddau y mae beirniadaethau'r blaid Lafur o'r Llywodraeth Genedlaethol yn eich darbwyllo?*

### Ffynhonnell F

Beirniadaeth yr wrthblaid – maniffesto etholiadol Llafur, 1935:

**Pedair Blynedd Hesb**

*Ar ddiwedd pedair blynedd mae'r wlad yn wynebu'r sefyllfa enbyd o ddwy filiwn yn ddi-waith gyda byddin o ymhell dros filiwn a hanner o bobl ar Ddeddf y Tlodion, a chyda thrychineb yr ardaloedd cyni yn parhau i waethygu. Tra bod cardod o bob math wedi'i ddosbarthu'n hael i un diwydiant ar ôl y llall, ni chymerwyd yr un cam cadarnhaol i wella tynged y bobl.*

*Mae'r Llywodraeth wedi amddifadu'r di-waith o fudd-daliadau ac wedi eu gorfodi i wynebu profion modd aelwyd didostur a chreulon...*

*Mae wedi arafu'r broses o adeiladu tai i'w gosod, cwtogi ar gynlluniau gweithfeydd cyhoeddus, a pheidio â chefnogi datblygiad y gwasanaethau cymdeithasol.*

O P.Adelman, *British Politics in the 1930s and 1940s*, 1987.

## Ffynhonnell Ff

Safbwynt hanesydd modern:

*Roedd cyfleoedd bywyd yn yr 1930au yn dibynnu'n fawr ar lle yr oeddech yn digwydd cael eich geni a'ch magu. Mae'r ffigurau crynswth ar iechyd, cyflogau, tai a gwariant defnyddwyr yn sicr yn cefnogi'r safbwynt bod safonau byw yn codi. Ond i'r rhai oedd yn byw yn yr ardaloedd dirwasgedig, mae'r darlun traddodiadol o'r 1930au fel blynyddoedd o wastraff ac amddifadedd yn parhau i fod yn wir.*

O W.O.Simpson, *Changing Horizons, Britain 1914–80*, 1986.

**7**

*Darllenwch Ffynonellau Ch ac Ff. Pa un o'r ffynonellau hyn sy'n rhoi'r olwg fwyaf nodweddiadol ar fywyd ym Mhrydain yn ystod yr 1930au?*

## Ffynhonnell G

Cartrefi slym ym Manceinion yn yr 1930au



Topham Picturepoint

Roedd pwysau a straen byw gyda diweithdra, ynghyd â'r diffygion corfforol, yn cael effeithiau difrifol ar iechyd teuluoedd. Roedd afiechydon megis y llechau (*rickets*), niwmonia, y diciâu a chlefyd y galon i gyd yn fwy cyffredin yn yr ardaloedd dirwasgedig. Roedd mamau ddwywaith mor debygol o farw wrth eni plentyn na mamau yn yr ardaloedd mwy llewyrchus, ac roedd cyfradd marwolaethau plant ddwywaith yn uwch. Roedd mwy o iselder meddyliol, ac roedd y dynion di-waith yn tueddu i fod yn llai ffit yn gorfforol na'r dynion oedd mewn gwaith. Roedd cyfraddau marwolaeth yn nheuluoedd y di-waith yn 29.29 y 1,000 o'i gymharu â 21.01 y 1,000 mewn teuluoedd lle'r oedd y tad mewn gwaith.

Roedd cyfleoedd bywyd plant a anwyd i deuluoedd y di-waith yn isel. Roeddent yn annhebygol o gael addysg dda ac felly yn annhebygol o gael swydd dda eu hunain. Ni fyddai eu hiechyd yn dda ac, yn y pen draw, roeddent yn debygol o farw'n iau.

## Ffynhonnell Ng

Adroddiadau cyfoes am fywyd ar y dôl:

*Mae cyllideb y teulu... yn golygu ein bod yn byw yn bennaf ar de a thost. Mae'r deiet hwn wedi arwain at salwch sy'n dod yn ôl dro ar ôl tro. Mae'r plentyn ieuengaf wedi cael niwmonia deirgwaith ers Chwefror y llynedd. Mae hi bellach yn dioddef o froncitis ac, yn ôl y meddyg, mae'n debyg ei bod hi'n datblygu TB.*

*Roedd y plentyn hynaf yn yr ysbyty fis diwethaf...*

O F.Brockway, *Hungry England*, 1937.

*Dechreuodd y cweryla eto, a dywedwyd pethau chwerw. Yn y diwedd, wedi cyfnod mwyaf torcalonnus fy mywyd, dywedodd fy ngwraig a'm mab, oedd newydd ddechrau ennill ychydig sylltau, wrthyf bod yn rhaid i mi adael, gan fy mod i'n byw oddi arnyn nhw a'r bwyd yr oedd arnynt ei angen.*

R.S.Lambert a H.L.Beales, *Memoirs of the Unemployed*, 1937.

*Allwch chi ddim cael llawer o gig am dair ceiniog, ond fe gewch chi lawer o bysgod a sglodion. Mae'n eithaf tebygol fod pysgod a sglodion, sanau sidan artiffisial, samon tun, siocled rhad (bariau pump owns am chwecheiniog), y sinema, y radio, te cryf a'r pyllau pêl-droed, rhyngddynt, wedi osgoi chwyldro.*

O G.Orwell, *The Road to Wigan Pier*, 1937.

## Ffynhonnell H

Cartŵn gan David Low, a gyhoeddwyd yn yr *Evening Standard*, 9 Hydref 1933




David Low, Evening Standard, 9 Hydref 1933
British Cartoon Archive, Prifysgol Kent

**8**

*Astudiwch Ffynhonnell H. Beth yw neges y cartŵn?*

**9**

*Defnyddiwch yr holl ffynonellau a'ch gwybodaeth eich hun. Pam y gallodd Prydain osgoi'r math o aflonyddwch gwleidyddol treisgar y gwnaeth gwledydd eraill ei ddioddef o ganlyniad i'r dirwasgiad?*

## Casgliad

Er y cafwyd rhywfaint o dwf mewn mudiadau gwleidyddol radical oedd yn ymgyrchu o blaid gweithredu gan y llywodraeth i ddatrys problemau economaidd Prydain, i lawer o'r di-waith yn yr 1930au ymddangosai nad oedd unrhyw ffordd amlwg allan o'u tlodi. Roedd llawer oedd yn ymddangos eu bod yn derbyn eu tynged ac yn derbyn y byddai yna wastad rai oedd â phopeth a rhai oedd heb ddim ym Mhrydain.

Profiad torfol yr Ail Ryfel Byd a arweiniodd at benderfyniad anferth i beidio â dioddef tlodi ar y fath raddfa ddim hwy, a galwad anorchfygol ar i'r llywodraeth chwarae rhan arweiniol i helpu ei dinasyddion i wella ansawdd eu bywydau. Roedd yr ymchwydd o gefnogaeth am lywodraeth Lafur yn 1945 yn ganlyniad uniongyrchol i'r atgof o flynyddoedd y dirwasgiad.

Addaswyd ac atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Philip Allan Updates o gylchgrawn *Hindsight*, Ebrill 2008: *Boom and Depression in 1930s Britain*, Paul Chapman.

Gwnaethpwyd pob ymdrech i olrhain a chydnabod deiliaid hawlfraint. Bydd y cyhoeddwr yn falch o wneud trefniadau addas gydag unrhyw ddeiliaid na lwyddwyd i gysylltu â hwy.

Cyfieithydd: Nia Peris
Golygydd: Lynwen Rees Jones
Dylunydd: Richard Huw Pritchard